CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**
*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

**SWYDDOGION**

*Llywydd:*
*Dr. E D. Jones*
*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.*
*(Caernarfon 3593)*
**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## Ymyl y ddalen

UN o lyfrau defosiynol mwyaf poblogaidd ein hynafiaid oedd **Canwyll y Cymru**, sef gwaith yr enwog Rhys Pritchard (bu farw 1644). Aeth yr awdur i'w fedd ddwy flynedd cyn i'w waith ymddangos mewn print ac ni freuddwydiodd y byddai 37 argraffiad o'r Canwyll yn dod o wahanol weisg rhwng 1646 a 1798 – cyfartaledd o un argraffiad bob pedair blynedd.

Cofier nad llyfryn tila mo'r **Canwyll** ond cyfrol yn cynnwys tua 500 o dudalennau.

Y mae gennyf ddeuddeg argraffiad cynnar o'r gyfrol – 1672 a 1681 o Lundain, 1714, 1721, 1731, 1745, 1750, 1766 o Amwythig., 1770 (dau argraffiad) o Lanymddyfri, 1776 a 1798 o Gaerfyrddin.

Ni fu cynberchnogion fy nghopïau i yn eu haddurno'n frwd gyda'u llofnodion a nodion ymyl y ddalen. Ceir ambell nodyn yn yr iaith Ladin ar dudalennau argraffiad 1681. Mewn llaw ddiweddarach fe ysgrifennodd rhywun dri o emynau Griffith Jones. Ymddengys i'r emynau gael eu copïo o **Hymnau Detholedig** (Caerfyrddin 1745).

Glynwyd darn o bapur ar argraffiad 1714 ac arno'r ffeithiau moel 'Massey Nantwich No 5981'. Hefyd ar un o dudalennau glân y gyfrol, fe ysgrifennwyd 'J.E. Rowlands, Trevor, Ruabon – bought this book at Harriet Jones' sale Bryncelyn Garth, Nov.18 '09 for 6d".

D.W.W.

## Y SINGERS

At y Golygydd,

HOLI yr wyf am unrhyw wybodaeth, lluniau, hanesion, rhaglenni etc., am y Welsh Imperial Singers a ffurfiuwyd yn 1926 gan eu harweinydd, R Festyn Davies. Buont yn canu tan 1939. Roedd y Cantorion yn enwog, yn cynnal cyngherddau drwy'r wlad a hefyd yng Ngogledd America. Unawdwr efo'r grŵp oedd fy nhad, y tenor Jabez Trevor (1888-1972), yn bennaf yn y blynyddoedd 1926-33. A dyna'r cefndir i'r llyfr a ysgrifennais, llyfr sydd yn edrych am gyhoeddwr. Mae'n dwyn y teitl **The Songbird is Singing**, a'r is-deitl **Scenes from a Welsh Childhood in the 1920's.**

Byw ar fferm (Pen-y-Wern, Treuddyn, Yr Wyddgrug) roeddwn gyda'm brawd, yn ddau fachgen wyth a naw oed, a'n tad yn canu ac yn teithio ym Mhrydain, America a Chanada. Y Cefndir yw ddyddiau Al Capone, y Gwaharddiad ar Ddiod, trafferthion Wall Street 1929, ac yn y blaen.

Ysgrifennais erthyglau am y Cantorion, a'r canlyniad ydi bod llawer o lythyrau wedi dod (o America, Canada a Phrydain) oddi wrth bobl sydd yn cofio'r Welsh Imperial Singers. Mae 'nawr eisiau sgwennu Rhagair hir i'r llyfr, er mwyn rhoi yr hanes o'r dechrau (1926) i'r diwedd (1929). Mae gennyf 44 o enwau hyd yn hyn. Efallai fod rhai o'n darllenwyr yn gwybod am fwy, yn enwedig am rai o'r De a oedd ar y daith olaf i America a Chanada, 1938-39.

Ymysg y papurau sydd wedi cael eu cadw ers y Dauddegau mae 'na ryw hanner dwsin o raglenni'r Cantorion; a poster lliw, mawr (40 × 30 modfedd), o'r flwyddyn 1926. Dyma ffoto o ran o'r poster mawr, yn dangos Festyn Davies yr arweinydd a rhai o'r Cantorion, fel yr oeddynt ar y llwyfan wedi'u gwisgo yn ffasiwn dechrau'r 19eg ganrif: cotiau coch bol deryn, gwasgodau brodedig, crysau â llewys llydan, trowsusau tynn, a'r arweinydd mewn clos pen glin, sanau sidan a chôt bol deryn frown.

Pwy sy'n eu cofio nhw? Tybed a oes rhai ohonynt yn fyw o hyd? Os oes unrhyw un ohonoch ag unrhyw wybodaeth, boed fach neu fawr, yna buaswn wrth fy modd yn clywed oddi wrthych. Ysgrifennwch ataf yn 5 Windsor Court, Duke Street, Caer CH1 1RP.

Alun Trevor

## TESTAMENT CAERNARFON

At y Golygydd,

YN Y flwyddyn 1850 cyhoeddwyd argraffiad o Destament Salesbury yn y dref **Testament newydd ein Arglwydd Iesu Christ.**

## At y Golygydd



Robert Griffith, llyfrwerthwr yn Stryd y Llyn, ers 1837 oedd y cyhoeddwr (Bangor, Plas Coch 3721) a James Rees a fu'n gyfrifol am yr argraffu, (Testament, tud 500). Yr oedd ganddo ef ddigon o adnoddau ar gyfer y gwaith mawr a manwl hwn yn swyddfa'r **Herald.**

Ar safle siop Robert Griffith y bu W. Gwenlyn Evans, un o argraffwyr annibynnol pwysig Caernarfon, yn cynnal ei fusnes am gyfnod (**The Nelson, 24, Tach. 1895, 6**), busnes teuluol a bontiodd flynyddoedd maith o chwarter ola'r hen ganrif draw i ail hanner y ganrif hon.

Ni welais ddim am Robert Griffith yn cynnal busnes argraffu. A welsoch chi?

Maldwyn Thomas
Bangor.

## REES JONES

At y Golygydd,

YN RHIFYN mis Mawrth o'r **Casglwr** sylwais yng ngholofn Ymyl y Ddalen ar gyfeiriad at Rees Jones Llanymawddwy 1836. Tybiaf mai'r un Rees Jones ydyw a'r Rhys Jones y Cwm y sonnir amdano yn y llyfryn "Eglwys Bryncoch Llanymawddwy", gan Thomas Davies, argraffwyd yn y Bala 1908. Dyfynnaf fel a ganlyn.

"Rhys Jones, y Cwm, hen wladwr plaen oedd ef, yn byw mewn fferm fechan o'r enw Cwm Uchaf, Llanymawddwy. Bu farw rhyw hanner can mlynedd yn ôl mewn llawn dyddiau (c.1858). Ganddo ef oedd y llyfrgell fwyaf yn Mawddwy ar ddechrau y ganrif ddiwethaf. Yr oedd yn chwiliwr hynafiaethau diwyd a chofiwr digwyddiadau rhagorol, ac yn hel i'w fwthyn gwledig hanesion a gwybodaeth o'r Cymry, a'u defion beth wmbreth.

"Gwelwyd yn ei gasgliad y rhan fwyaf o lyfrau yr unfed a'r eilfed ar bymtheg a dechrau y ganrif ddiwethaf, megis gweithiau Edward Samuel, Ellis Wyn, Morris Gyffin, a Rowland Fychan, llyfrau gwerth eu darllen, oherwydd eu hiaith ystwyth, a'u tuedd ymarferol ...

"Byddai holl lenorion Mawddwy, Bala, Dolgellau , a mannau eraill yn talu ymweliad â Rhys yn ei fwthyn bychan yn min y mynydd. Treuliodd y fath lenorion a Gwilym Lleyn, Ioan Pedr, D. Silvan Evans, L. Glyn Dyfi, Ab Ithel, a llu eraill allesid eu hewni, lawer diwrnod yn nghwmni Rhys y Cwm. Byddai yn mynd i'r Amwythig, Gwrecsam, Bala, a Dolgellau i ymofyn llyfrau, gan gerdded wrth fyned a dyfod...."

Tybed oes gan rywun arall un o lyfrau Rhys y Cwm.

Tegwyn Jones,
Tal-y-Glannau, Mallwyd.

## ARGRAFFWYR RHIWLEDYN

**At y Golygydd**

**Ar ddiwedd erthygl ar Pedwar Canmlwyddiant Argraffu yng Nghymru** yn rhifyn Mawrth 1987 o'r **Casglwr** dywedais bod nifer ohonom yn teimlo bod ymdrechion argraffwyr Rhiwledyn yn haeddu coffawdwriaeth trwy dabled neu blac dwy-ieithog yn gyfagos i ffordd y Gogarth Bach a arweinia at Greigiau Rhiwledyn a'i ogofeydd lle argraffwyd y **Drych Cristionogawl** ym mlynyddoedd 1586-87.

Ar ôl dwy flynedd a mwy o ymdrech i berswadio yr awdurdodau dyma fainc wedi ei gosod yn gyfagos i'r llwybr sy'n arwain ar lethrau'r Gogarth Bach o'r ffordd i Fae Colwyn. Gosodwyd y fainc dan nawdd Cynghorau Bwrdeistref Aberconwy a thref Llandudno, a rhannwyd y gôst rhyngddynt.

Dywed plac ar y sêt yn y ddwy iaith

"GOSODWYD Y PLAC YMA ER COF AM SEFYDLU Y WASG ARGRAFFU GYNTAF YNG NGHYMRU O FEWN OGOF AR RIWLEDYN (TRWYN Y FUWCH) LLANDUDNO LLE ARGRAFFWYD Y LLYFR Y DRYCH CRISTIONOGAWL YN Y BLYNYDDOEDD 1586-87.

Stan Wicklen
Deganwy